Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF

# Cod Ymarfer

## Data Monitro Electronig

Mawrth 2024

**© Hawlfraint y Goron 2017**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sy'n destun hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn:

Electronic Monitoring Team

102 Petty France,

Llundain

SW1H 9AJ

ISBN Argraffiad [ ]
ISBN y We [ ]]
ID [ ] [ ] / [ ]

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan y Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys

**Diben..............................................................................................................Tudalen 2**

**Fframwaith Cyfreithiol…………………………………………………….....Tudalen 2**

**Gosod Gofyniad neu Amod Monitro Electronig ……………………...…...Tudalen 3**

**Y Data a Sut i Fonitro'r Gofyniad / Amod.............................................Tudalen 4**

**Rhannu Gwybodaeth..........................................................................Tudalen 6**

**Trosglwyddo Data...............................................................................Tudalen 8**

**Peryglu neu Golli Data........................................................................Tudalen 9**

**Cywiro a Dileu Data...........................................................................Tudalen 10**

**Dal a Chadw Data...............................................................................Tudalen 10**

**Diogelu Data a Rolau Prosesu.............................................................Tudalen 11**

**Gweithgarwch Cynlluniau Peilot..........................................................Tudalen 12**

# Diben

1. Yn unol â darpariaethau deddfwriaeth benodol (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i adran 62B o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2000 ac adran 39(1) o Ddeddf Dedfrydu 2020), mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder gyhoeddi Cod Ymarfer sy'n ymwneud â phrosesu data personol a gasglwyd wrth fonitro'n electronig fel rhan o orchmynion llys perthnasol neu drwydded ar ôl rhyddhau o garchar neu lety cadw ieuenctid.

2. Mae cyhoeddi'r Cod Ymarfer hwn yn cyflawni'r gofynion hyn i'r graddau y mae data personol yn rhan o brosesu data monitro electronig. Mae'n egluro'r disgwyliadau, y mesurau diogelu a'r cyfrifoldebau eang ar gyfer casglu, cadw, prosesu a rhannu data monitro electronig lle mae'n ddata personol. Cafodd y Cod gwreiddiol, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018, ac a ddiweddarwyd ym mis Hydref 2020, ei ddrafftio mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a chydweithwyr yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gan gynnwys:

   Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth;
   Yr Heddlu;
   Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid; a'r
   Bwrdd Parôl

3. Mae'r fersiwn hon o'r Cod yn gwneud rhai mân ddiwygiadau i adlewyrchu'r cyd-destun monitro electronig presennol ac i ragweld deddfwriaeth bellach ar ei ddefnyddio. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o'r Cod nac egwyddorion sylfaenol cydymffurfio â diogelu data wedi newid.

4. Darperir y Cod i helpu Rheolyddion Data a Phroseswyr Data sy'n ymwneud â monitro'n electronig unigolion sy'n destun gorchmynion/trwyddedau perthnasol i ddeall y fframwaith cyfreithiol o ran diogelu data a mabwysiadu arferion da. Nid yw ei gynnwys yn ceisio dileu na disodli unrhyw rai o'r darpariaethau cytundebol sydd ar waith ar gyfer darparwyr gwasanaethau. Nid yw methu â chydymffurfio â'r Cod ynddo'i hun yn golygu bod rhywun yn atebol mewn achosion troseddol neu sifil, ond gall torri rheolau diogelu data neu ddeddfau eraill arwain at atebolrwydd.

# Y fframwaith cyfreithiol

5. Mae'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gosod dyfeisiau monitro electronig fel rhan o orchmynion/trwyddedau sydd o fewn cwmpas y ddogfen hon wedi'i nodi mewn nifer o statudau gwahanol sy'n ymwneud â gwahanol fathau o orchmynion. Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000, Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, Deddf Troseddu a'r Llysoedd 2013, Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015 a Deddf Dedfrydu 2020.

6. Mae data monitro electronig, o fewn cwmpas y Cod hwn yn cael ei gasglu a'i brosesu at ddibenion gorfodi'r gyfraith, yn benodol er mwyn atal troseddau, gweithredu cosbau troseddol a diogelu rhag bygythiadau i ddiogelwch y cyhoedd.

Felly mae Rhan 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018 yn berthnasol. Lle bo angen a'i bod yn gymesur gwneud hynny, gellir rhannu gwybodaeth ag Asiantaethau neu gyrff cyhoeddus perthnasol at ddibenion eraill, gan gynnwys dibenion gorfodi'r gyfraith eraill megis ymchwilio, canfod neu erlyn troseddau. Ni fydd data personol yn cael ei rannu oni bai ei bod yn gyfiawn ac yn gymesur gwneud hynny, lle mae'n cael ei ganiatáu'n gyfreithlon neu lle ceir eithriad i'r gwaharddiad ar rannu. Bydd y gwaith prosesu yn cydymffurfio â darpariaethau deddfwriaeth diogelu data. Ceir rhagor o wybodaeth am rannu data ym mharagraffau 23 i 34.

7. Pan fo'r data monitro electronig a brosesir yn ddata personol fel y'i diffinnir mewn deddfwriaeth diogelu data, wrth ei brosesu rhaid cydymffurfio â'r chwe egwyddor diogelu data a geir yn Rhan 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018. Felly, rhaid:
   - ei brosesu'n deg ac yn gyfreithlon;
   - ei brosesu at ddibenion penodol, neilltuol a dilys ac nid ei brosesu mewn ffordd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny;
   - iddo fod yn ddigonol, yn berthnasol ac nid yn ormodol;
   - iddo fod yn gywir a, lle bo angen, yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf;
   - peidio â'i gadw am fwy o amser nag sy'n rhaid;
   - ei brosesu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch priodol;

8. Cydnabyddir bod prosesu data personol o fewn cwmpas Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, hynny yw yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol. Fodd bynnag, nid yw Erthygl 8 yn hawl absoliwt a chaniateir i awdurdodau cyhoeddus ymyrryd os yw'n gyfreithlon ac yn gymesur gwneud hynny, a'i fod yn angenrheidiol er budd diogelwch gwladol, diogelwch y cyhoedd neu er mwyn atal anrhefn neu drosedd.

9. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder o'r farn ei bod yn gyfreithlon ac yn gymesur prosesu data personol er mwyn cydymffurfio â gorchmynion/trwyddedau monitro electronig perthnasol a gyhoeddwyd o dan ddeddfwriaeth berthnasol.

## Gosod gofyniad neu amod monitro electronig

10. Mater i'r Llysoedd yw penderfynu a ddylid gosod gofyniad monitro electronig fel rhan o Orchymyn Llys ac mae'n ddyletswydd arnynt ystyried unrhyw fesurau diogelu statudol a materion sy'n ymwneud â thegwch a chymesuredd.

11. Gall y Bwrdd Parôl neu'r Ysgrifennydd Gwladol osod amod monitro electronig ar drwydded ryddhau drwy lywodraethwr/cyfarwyddwr carchar/sefydliad troseddwyr ifanc, neu Dîm Rhyddhau ac Ailsefydlu y Gwasanaethau Ieuenctid yn y Ddalfa. Ar gyfer oedolion, bydd amodau'r drwydded yn cael eu gosod mewn ymgynghoriad â darparwyr prawf. Ar gyfer plant a phobl ifanc, mae amodau trwydded neu ofynion hysbysiad goruchwylio yn cael eu pennu mewn ymgynghoriad â'r Tîm Troseddau Ieuenctid perthnasol. Yn unol â pholisi Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS), amcanion cyfnod y drwydded yw amddiffyn y cyhoedd, atal aildroseddu a sicrhau bod y troseddwr yn cael ei ail-integreiddio'n llwyddiannus i'r gymuned. Dylai amodau trwydded fod yn ataliol yn hytrach na chanolbwyntio ar gosbi a rhaid iddynt fod yn gymesur, yn

rhesymol ac yn angenrheidiol. Fodd bynnag, mae'r cyrffyw gorfodol a roddir dan y Cyrffyw Cyfyngu i'r Cartref hefyd yn fath o gosb gan ei fod yn adlewyrchu'r ffaith bod y carcharor yn dal i fod yn rhwym wrth elfen garcharol y ddedfryd.

12. Ar gyfer troseddwyr sy'n oedolion, bydd y corff sydd â'r awdurdod i ychwanegu, dileu a diwygio amodau'r drwydded yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys y math o ddedfryd a phwy sydd â'r awdurdod i ryddhau'r troseddwr yn uniongyrchol. Fel arfer, bydd hyn yn golygu naill ai'r Bwrdd Parôl neu, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, y Gwasanaeth Prawf neu Adran Gwaith Achos Amddiffyn y Cyhoedd (PPCS) HMPPS.

13. Ar gyfer troseddwyr dan 18 oed sydd wedi cael dedfryd benodol, gall Timau Troseddau Ieuenctid ofyn am amodau trwydded ychwanegol neu ofynion Hysbysiad Goruchwylio. Cymeradwyir pob cais am amodau/gofynion ychwanegol gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder. Dirprwywyd y cyfrifoldeb hwn i Lywodraethwyr ar gyfer plant a leolir mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ac i Dîm Rhyddhau a Dedfrydu'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa ar gyfer plant a leolir mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant.

## Y data a sut i fonitro'r gofyniad / amod

14. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi mynd i gontract ar gyfer gwasanaethau monitro electronig gan gynnwys darparu offer, gwasanaeth maes a gwasanaeth monitro. Mae'r gwasanaeth maes yn gyfrifol am osod / tynnu'r offer angenrheidiol a chynefino unigolion ar ofynion monitro electronig. Mae'r gwasanaeth monitro yn monitro cydymffurfedd unigolion â'r gofynion a osodir gan orchmynion/trwyddedau perthnasol ac yn adrodd am achosion o dorri'r gofynion wrth yr asiantaeth orfodi/oruchwylio briodol.

15. Bydd contractwyr monitro electronig yn prosesu'r data personol sy'n angenrheidiol er mwyn:

- Sicrhau bod yr unigolyn cywir yn cael ei fonitro'n electronig;
- Monitro cydymffurfedd yr unigolyn â'r gorchmynion/trwyddedau perthnasol.
- Monitro lleoliad yr unigolyn yn unol â gofynion trwydded neu orchymyn llys;
- Sicrhau bod y contractwr yn gallu cyflawni ei rwymedigaethau cytundebol ac er mwyn monitro ei berfformiad yn erbyn gofynion y contract;
- Diogelu'r cyhoedd a staff e.e. cofnodi manylion unrhyw ymddygiad gan yr unigolyn neu eraill yn y lleoliad sy'n berthnasol i'r asesiad risg diogelwch a rhannu'r wybodaeth honno lle bo hynny'n briodol;
- Cynorthwyo'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010:
- Rhoi gwybod i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder am ddefnyddio monitro electronig ar draws y dirwedd ddeddfwriaethol a gwerthuso gweithgarwch/ effeithiolrwydd.

- Ymateb yn gyfreithlon i ymholiadau oddi wrth, er enghraifft, gyrff cyhoeddus ac Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol.

16. Nid oes rhaid i gontractwyr sy'n darparu'r offer archwilio'r data personol sy'n cael ei gadw mewn systemau. Fodd bynnag, efallai y bydd angen iddynt gael mynediad at y systemau at ddibenion cynnal a chadw a sicrwydd. Mae gofynion cytundebol ar waith i sicrhau bod unrhyw ddata personol y mae contractwyr yn ei weld at y dibenion hyn yn cael ei drin yn unol â'r gyfraith diogelu data.

17. Dim ond yn unol â deddfwriaeth diogelu data y caiff y data ei brosesu. Oni bai y ceir eithriad o dan Ddeddf Diogelu Data 2018, neu y ceir sail gyfreithiol arall sy'n caniatáu'r prosesu, dim ond at y dibenion a nodir ym mharagraff 16 ac 17 y caiff y data ei brosesu. Cyfyngir ar ddiogelwch y data a mynediad ato yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau a gynhyrchir ar y cyd â hyn. Dim ond faint o ddata personol sy'n angenrheidiol fydd yn cael ei rannu er mwyn bodloni'r gofynion a nodir uchod.

**Monitro Lleoliadau a Chyrffyw**

18. Os yw'r gorchymyn/trwydded berthnasol yn cynnwys amod/gofyniad monitro lleoliad yn electronig, bydd rhaid i'r unigolyn wisgo tag wedi'i osod ar gyfer monitro lleoliad. Bydd y caledwedd monitro lleoliad a'r feddalwedd gysylltiedig yn cofnodi lleoliad yr unigolyn 24 awr y dydd yn unol â'r gorchymyn/trwydded. Fodd bynnag, pan weithredir monitro lleoliad er mwyn monitro gofyniad/amod penodol (megis ardal waharddedig), caiff gwybodaeth am y lleoliad ei monitro'n weithredol (h.y. lle mae angen adolygu'r data yn hytrach na bod y data'n sefyll yn y system) dim ond os oes rheswm cyfreithlon dros wneud hynny e.e. ar ôl torri gofyniad/amod a dim ond lle mae'n gymesur ac yn angenrheidiol. Ni chaiff ei fonitro'n weithredol ar adegau eraill. Bydd hyn yn cael ei egluro i'r unigolyn fel rhan o hysbysiad preifatrwydd a gyflwynir adeg sefydlu (gweler paragraff 22).

19. Os oes gofyniad monitro lleoliad yr unigolyn (h.y. gofynion i fonitro lleoliad sydd wedi'i osod ar wahân i'r diben o fonitro cydymffurfedd yr unigolyn ag unrhyw ofynion eraill ac y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cyfeirio ato fel monitro lleoliad) gall yr asiantaeth sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gorchymyn/trwydded werthuso'r holl ddata lleoliad a gasglwyd.

20. Bydd gofynion cyrffyw yn cael eu monitro drwy dechnoleg amledd radio (RF). Mewn achosion lle mae gan unigolyn ofyniad monitro lleoliad a gofyniad cyrffyw a gaiff ei fonitro'n electronig, bydd rhaid iddo wisgo tag sydd wedi'i osod i fonitro lleoliad ac a fydd hefyd yn caniatáu i'r cyrffyw gael ei fonitro drwy ddefnyddio technoleg RF. Mewn achosion lle rhoddir cyrffyw i unigolion ond heb ofyniad monitro lleoliad, bydd rhaid iddynt wisgo tag sydd wedi'i osod ag amledd radio yn unig. Ym mhob achos, bydd y tag yn cyfathrebu ag uned sydd wedi'i gosod ym man preswylio'r unigolyn a bydd y system yn cofnodi bob tro y bydd yn dod i mewn i'r eiddo neu'n gadael. Gellir hefyd gofnodi symudiadau os a phan fydd yr unigolyn yn mynd heibio lleoliad lle mae uned arall wedi'i gosod, gan y bydd yn cofnodi bod tag RF arall yn y cyffiniau. Ni fydd data sy'n cael ei gasglu y tu allan i oriau cyrffyw yn cael ei brosesu ymhellach oni bai fod rheswm cyfreithlon, a dim ond pan fo hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur.

**Monitro Alcohol**

21. Os yw'r unigolyn yn destun gofynion monitro alcohol yn electronig, bydd rhaid iddo wisgo tag sy'n mesur faint o alcohol sydd yn ei gorff drwy gyfrwng ei chwys. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn cael ei rhannu â'r asiantaeth orfodi neu oruchwylio berthnasol.

# Rhannu gwybodaeth

22. Adeg cynefino pob unigolyn sy'n destun monitro electronig, byddant yn derbyn Hysbysiad Preifatrwydd, yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data, sy'n esbonio'r sail gyfreithiol dros brosesu eu data personol a'u hawliau o safbwynt diogelu data. Bydd yr hysbysiad yn egluro'r mathau o ddata y gellir ei gasglu a, lle bo angen a lle y bo'n gymesur, gellir rhannu'r data hyn ag Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol at ddibenion penodol.

23. Ni ddylid rhannu data personol oni bai ei fod yn cael ei ganiatáu gan y gyfraith a'i fod yn gyfiawn, yn angenrheidiol ac yn gymesur i wneud hynny. Cyfrifoldeb y Rheolyddion Data a nodir yn ddiweddarach yn y ddogfen hon yw sicrhau y ceir sail a phorth cyfreithlon dros rannu data.

24. Er enghraifft, at ddibenion unigolion sydd wedi cael euogfarn, ceir pwerau datganedig yn Neddf Rheoli Troseddwyr 2007 sy'n caniatáu i bartïon penodol rannu gwybodaeth am droseddwyr at ddibenion penodol. Mae adran 14(4) o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 yn datgan y ceir rannu gwybodaeth pan fo hynny'n angenrheidiol neu'n fuddiol at y dibenion canlynol:

- at ddibenion y gwasanaeth prawf;
- cyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â charchardai a charcharorion;
- unrhyw ddibenion eraill sy'n gysylltiedig â rheoli troseddwyr (gan gynnwys datblygu neu asesu polisïau sy'n ymwneud â materion sy'n gysylltiedig â rheoli troseddwyr).

25. Mae adran 36(3) o Ddeddf Diogelu Data 2018 yn caniatáu i ddata personol sy'n cael ei gasglu at ddiben gorfodi'r gyfraith gael ei brosesu at ddiben arall sy'n gorfodi'r gyfraith (boed hynny gan y rheolydd a gasglodd y data neu gan reolydd arall) cyn belled ag y bo'r rheolydd wedi'i awdurdodi gan y gyfraith i brosesu'r data at y diben hwnnw a bod y prosesu'n angenrheidiol ac yn gymesur â'r diben arall hwnnw.

26. Fel un o adrannau'r llywodraeth sydd dan arweiniad un o Weinidogion y Goron, gallai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn rhai amgylchiadau ddibynnu ar bwerau cyfraith gwlad i rannu data.

27. Bydd sefydliadau sy’n hysbysu, gan gynnwys GLITEF, carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc a’r Gwasanaeth Prawf, yn gallu anfon archebion at y contractwr monitro electronig drwy ddulliau diogel.

28. Gall asiantaethau sy’n ysgwyddo cyfrifoldeb dros oruchwylio/gorfodi’r gorchmynion/trwyddedau weld data monitro electronig dros y ffôn, drwy e-bost diogel a/neu systemau gwe diogel at y dibenion y’i cafwyd. Felly, er enghraifft:

- Mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gallu gweld yr holl gofnodion a’r adroddiadau at y dibenion a nodir ym mharagraff 16, gan gynnwys monitro cydymffurfedd â’r ddarpariaeth gontractiol a chyflawni ei dyletswydd fel Rheolydd Data. Cyfyngir mynediad ar sail yr angen i wybod ac yn unol â’r ddeddfwriaeth diogelu data.
- Bydd data monitro electronig a gesglir ar orchmynion/trwyddedau yn cael ei roi i ddarparwyr gwasanaethau prawf yn rhinwedd eu swydd fel y Swyddog Cyfrifol, y swyddog goruchwylio neu’r asiantaeth orfodi ar gyfer yr unigolyn hwnnw sydd ar y Gorchymyn/drwydded benodol honno.
- Bydd yr Adran Gwaith Achos Amddiffyn y Cyhoedd yn cael data am droseddwyr sy’n cael eu rhyddhau ar drwydded o gaethiwed carchar a bydd yn trosglwyddo gwybodaeth at swyddogion goruchwylio er mwyn rheoli’r troseddwr, neu i’r Bwrdd Parôl fel tystiolaeth i’w galw’n ôl i’r carchar neu fel sail ar gyfer penderfyniadau rhyddhau, lle bo hynny’n berthnasol;
- Bydd Tîm Apeliadau Cyrffyw Cyfyngu i’r Cartref y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael data am droseddwyr sy’n cael eu galw’n ôl i’r carchar ar ôl cael eu rhyddhau ar y Cyrffyw, a bydd weithiau’n trosglwyddo data i arbenigwyr fforensig o dan gontract er mwyn penderfynu beth sy’n achosi difrod i’r offer monitro electronig;
- Rhoddir data i’r Heddlu am yr achosion lle maent yn gweithredu fel yr asiantaeth gyfrifol e.e. mechnïaeth y llys a rhai gorchmynion sifil. Lle bo hynny’n gymesur ac yn angenrheidiol, datgelir data hefyd i Heddluoedd i gynorthwyo gyda’u hymchwiliadau neu i helpu i atal neu ganfod troseddau. Yn ogystal, gellir darparu data i helpu i asesu risg, rheoli adnoddau a chydymffurfedd unigolion fel y rheini sy’n destun prosesau Rheoli Troseddwyr Integredig neu Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd. Gellir hefyd rannu data er mwyn helpu i ddal unigolyn sydd wedi torri amod monitro electronig, neu i’w arestio am reswm arall, yn ogystal â chanfod unigolyn er mwyn diogelu bywyd neu eiddo.

29. Pan wneir cais, lle bo hynny’n gyfreithlon, yn angenrheidiol ac yn gymesur, gellir rhannu data personol yr unigolyn â’r sefydliadau hynny ac awdurdodau cyhoeddus eraill heb gydsyniad yr unigolyn.

30. Gellir datgelu gwybodaeth hefyd i ystod ehangach o geiswyr o dan Ran 3 y Ddeddf Diogelu Data neu o dan GDPR e.e. cyfreithiwr sy’n gweithredu ar ran yr unigolyn, os yw’r unigolyn yn rhoi ei gydsyniad.

31. Oni chyfarwyddir fel arall gan Lys, ni chaiff gwybodaeth ei rhyddhau heblaw bod hynny’n gyfreithlon ac yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Rhaid i unrhyw

wybodaeth a ddatgelir gael ei defnyddio at y diben(ion) y cafodd ei datgelu ac ni ddylid ei phrosesu ymhellach mewn modd a fyddai'n anghydnaws â'r diben(ion) hynny.

32. Ni fydd contractwyr monitro electronig yn cael mynediad uniongyrchol at wybodaeth sy'n cael ei chadw ar systemau rhanddeiliaid, ond caiff gwybodaeth berthnasol ei rhannu dros y ffôn, neu drwy ddulliau diogel. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r risg y gallai'r unigolyn ei pheri i eraill pan fo hynny'n angenrheidiol ac yn berthnasol i ddiogelu ac amddiffyn staff a'r cyhoedd. Gellir rhannu gwybodaeth hefyd at ddibenion diogelu statudol neu er mwyn rhoi gwybod am ymddygiad troseddol posibl.

**Ceisiadau am Wybodaeth gan yr Unigolyn**

33. O dan y cyfreithiau diogelu data, mae hawl gan unigolion sy'n destun gofynion neu amodau monitro weld yr wybodaeth amdanynt sy'n cael ei phrosesu gan sefydliadau. Gelwir y ceisiadau hyn yn Geisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun ac fe'u defnyddir fel arfer gan unigolion sydd eisiau copi o'r wybodaeth a gedwir amdanynt. Fel rhan o'r broses o gynefino â monitro electronig, bydd yr unigolion yn cael y manylion cysylltu perthnasol.

**Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth**

34. Mae pob rheolydd data sy'n awdurdod cyhoeddus yn y broses hon yn rhwym wrth ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a bydd rhaid iddynt gynorthwyo a chydweithio i alluogi i'w gilydd gydymffurfio â'u priod ddyletswyddau statudol mewn perthynas â cheisiadau am Wybodaeth. Mae gan gontractwyr monitro electronig ddyletswydd dan gontract i ddarparu'r wybodaeth sy'n ofynnol i alluogi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth. Dylid cyflwyno unrhyw geisiadau am wybodaeth mewn perthynas â'r gwasanaeth monitro electronig i'r cyfeiriad e-bost canlynol:

data.access@justice.gov.uk

# Trosglwyddo data

35. Bydd data sy'n cael ei drosglwyddo o offer monitro electronig i'r ganolfan fonitro yn cael ei amgryptio a bydd yn aros felly tra bydd yn cael ei gadw. Bydd yr holl ddata a rennir gan gontractwyr monitro electronig gyda rhanddeiliaid yn cael ei anfon dros y ffôn, drwy e-bost diogel neu drwy borth diogel. Bydd data a drosglwyddir i unrhyw borth yn cael ei amgryptio pan gaiff ei drosglwyddo a bydd yn aros felly tra bydd yn cael ei gadw. Ar ben hynny, gall contractwyr anfon neges destun at sefydliadau goruchwylio/gorfodi i'w hysbysu i agor yr e-bost neu'r porth perthnasol.

36. Rhaid i'r holl gyfathrebu â rhanddeiliaid gydymffurfio â lefel Dosbarthiad Diogelwch y Llywodraeth ar gyfer y data sy'n cael ei rannu, sef 'Swyddogol' fel arfer. Dylai'r partïon sy'n darparu'r swyddogaethau a amlinellir yn y Cod hwn

sicrhau eu bod yn ymwybodol a'u bod yn glynu wrth bolisïau a gweithdrefnau diogelu gwybodaeth eu sefydliad o ran prosesu data mewn ffordd sy'n briodol ar gyfer y dosbarthiad diogelwch dynodedig.

37. Mae gan yr holl staff ddyletswydd i gynnal cyfrinachedd a chyfrifoldeb personol i ddiogelu unrhyw wybodaeth a ymddiriedir i'w gofal. Mae hyn yn cynnwys sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau a'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol, er enghraifft amgryptio data personol ar declynnau cof symudol.

## Peryglu neu golli data

38. Mae cyfreithiau diogelu data yn mynnu bod rhanddeiliaid sy'n broseswyr neu'n Rheolyddion Data yn trin ac yn diogelu data yn briodol. Mae'r un gofynion hefyd yn mynnu bod rhanddeiliaid yn adrodd, yn rheoli, ac mewn rhai achosion yn rhoi gwybod i'r Comisiynydd Gwybodaeth am unrhyw achosion lle mae data sydd angen ei ddiogelu naill ai wedi'i golli, wedi'i beryglu, wedi'i ddifrodi, wedi'i ddinistrio neu wedi'i brosesu'n anghyfreithlon. Mae'n ofynnol i bob aelod staff, beth bynnag fo'u rôl, eu gradd neu eu lleoliad, roi gwybod am ddigwyddiad sy'n ymwneud â cholli neu beryglu data. Dylai'r holl randdeiliaid sicrhau bod eu staff yn deall yr hyn a olygir gan achos o dorri diogelwch data, a bod hyn yn fwy nag achos o golli data personol. Dylai rhanddeiliaid hefyd sicrhau bod ganddynt weithdrefn fewnol ar gyfer adrodd am achosion o dorri diogelwch data er mwyn helpu i benderfynu a ddylid rhoi gwybod i'r Comisiynydd Gwybodaeth am ddigwyddiad o'r fath.

39. Mae 'colli data' yn golygu nad yw lleoliad yr wybodaeth yn hollol hysbys (gall hyn fod yn fewnol ac yn allanol) neu os yw'r lleoliad posib y tu allan i reolaeth y rhanddeiliad.

40. Mewn achos o 'beryglu data', mae rhywun wedi cael mynediad, wedi defnyddio, wedi addasu neu wedi llygru gwybodaeth heb awdurdod.

41. Rhaid i'r holl randdeiliaid ddilyn eu polisïau lleol ar adrodd am achosion o beryglu neu golli data. Hefyd, os yw hyn yn ymwneud â data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a rannwyd, rhaid i'r rhanddeiliad roi gwybod i Gyfarwyddiaeth Monitro Electronig y Weinyddiaeth Gyfiawnder cyn gynted â phosibl, neu ddim hwyrach na 24 awr ar ôl darganfod bod hyn wedi digwydd.

42. Ar ôl cael gwybod am y digwyddiad posibl, rhaid i'r rheolydd (gweler yr adran ar rolau diogelu data) sy'n cofnodi'r digwyddiad benderfynu a yw'n ddigwyddiad sylweddol posibl. Dyma rai o'r ffactorau i'w hystyried:

- natur yr wybodaeth (a yw'n wybodaeth bersonol neu'n wybodaeth gorfforaethol sensitif?)
- nifer y cofnodion unigol dan sylw (os yw'n wybodaeth bersonol)

- effaith bosibl y digwyddiad, gan gynnwys y risg ymddangosiadol i'r unigolion, i'w teuluoedd (er enghraifft, plant), i staff, i ddioddefwyr, i droseddwyr dan oruchwyliaeth, i aelodau o'r cyhoedd ac i weithrediad neu enw da'r Weinyddiaeth Gyfiawnder;

43. Os yw'n debygol y gallai achos o dorri amodau diogelwch data personol arwain at risg i hawliau a rhyddid unigolion, rhaid i'r Rheolydd Data sy'n gyfrifol am y data roi gwybod i'r Comisiynydd Gwybodaeth am yr achos heb oedi'n ormodol, a lle bo hynny'n ymarferol, dim hwyrach na 72 awr ar ôl dod yn ymwybodol ohono. Mewn achosion eithriadol, os gwneir penderfyniad i beidio â hysbysu'r Comisiynydd Gwybodaeth, dylid cofnodi'r rhesymau a sicrhau y gellid darparu'r cyfiawnhad hwnnw i'r Comisiynydd Gwybodaeth petai'n gofyn amdano.

44. Os ystyrir bod y digwyddiad yn un difrifol neu'n un a fyddai'n cael effaith, rhaid i'r rheolwr arweiniol hysbysu'r Uwch-swyddog priodol ar unwaith drwy'r llinell reoli. Dylai pob darparwr dan gontract roi gwybod am y digwyddiad drwy'r llinell gontract (rheolwr contract dynodedig). Dylid cynnal ymchwiliad i amgylchiadau'r achos o dorri amodau diogelwch er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu a'u rhannu lle bo angen. Lle bo'n briodol, dylid cymryd camau i liniaru'r effaith ar destun y data, gan gynnwys drwy roi gwybod iddo beth sydd wedi digwydd a'i helpu i gymryd y camau lliniaru y mae'n dymuno eu cymryd.

## Cywiro a dileu data

45. Os bydd rhanddeiliaid yn dod yn ymwybodol bod data personol unigolyn yn anghywir neu'n anghyflawn, rhaid iddynt gymryd camau rhesymol i unioni'r sefyllfa.

46. Os bydd rhanddeiliaid yn canfod bod prosesu data yn amharu ar yr egwyddorion a nodir ym mharagraff 7 uchod, yna oni bai fod angen y data fel tystiolaeth, dylid gofyn i'r Rheolydd Data ystyried ei ddileu.

47. Os yw'r unigolyn yn gofyn am gywiro neu ddileu ei ddata personol, yna rhaid i'r parti perthnasol ymateb iddo gan roi gwybod am ganlyniad ei gais. Os gwrthodir y cais, rhaid rhoi gwybod i'r unigolyn am ei hawl i godi'r mater gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth a/neu'r Llys.

## Dal a chadw data

### Dal Data

48. Rhaid i bob rhanddeiliad gadw'r data'n ddiogel yn unol â pholisïau perthnasol neu fanylebau technegol manwl o fewn y contractau perthnasol. Rhaid i'r darpariaethau hyn gydymffurfio â safonau diogelwch Swyddfa'r Cabinet a Deddf Diogelu Data 2018.

49. Rhaid i bob rhanddeiliad sicrhau bod yr wybodaeth sydd ganddynt yn gywir ac yn gyfrinachol. Rhaid i'r holl staff sydd â mynediad at yr wybodaeth fod wedi cael eu hyfforddi'n briodol, rhaid iddynt fod wedi'u clirio ar y lefel briodol ar gyfer yr wybodaeth y maent yn ei thrin, a rhaid iddynt gydymffurfio â Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989. Dim ond y rheini sydd ag angen dilys i adolygu'r data ddylai gael gweld y data. Gallai mynediad amhriodol at y data neu brosesu'r data heb i'r Rheolydd Data wybod fod yn drosedd.

50. Yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data, ni ddylid cadw data personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

**Cadw Data**

51. Rhaid i bob Rheolydd Data sy'n ysgwyddo'r swyddogaethau a nodir yn y Cod Ymarfer hwn lynu wrth bolisïau a gweithdrefnau rheoli cofnodion eu sefydliad, yn benodol mewn perthynas â chadw a dinistrio data. Rhaid i bolisïau a gweithdrefnau o'r fath gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data. Ni ddylid cadw data personol am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol at y dibenion y cafodd ei gasglu.

52. Bydd y contractwr perthnasol yn cadw data monitro electronig personol yr unigolyn am hyd at 6 blynedd ar ôl i'r gorchymyn ddod i ben oni bai fod rheswm cyfreithlon dros ei gadw am ragor o amser, megis ymchwiliad parhaus. Wedi hynny, caiff ei ddinistrio'n ddiogel.

## Diogelu data a rolau prosesu

53. Mae'r **Rheolydd Data** yn awdurdod cymwys (fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Diogelu Data) sydd, ar ei ben ei hun neu ar y cyd, yn pennu'r rhesymau dros brosesu unrhyw ddata personol a sut caiff ei brosesu. Y Rheolydd Data sy'n gyfrifol am brosesu'r data ac sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros ddiogelu'r data.

54. O safbwynt data personol, y **Prosesydd Data** yw unrhyw berson (ac eithrio gweithiwr i'r Rheolydd Data) sy'n prosesu'r data ar ran y Rheolydd Data. Mae **Prosesu**, o safbwynt gwybodaeth neu ddata, yn golygu caffael, cofnodi neu ddal gwybodaeth neu ddata, neu weithredu cyfres o gamau gyda'r wybodaeth neu'r data, gan gynnwys:

- casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro neu storio,
- addasu neu newid,
- adfer, ymgynghori neu ddefnyddio,
- datgelu drwy drosglwyddo, lledaenu neu ei ryddhau fel arall,
- alinio neu gyfuno, neu
- gyfyngu, dileu neu ddinistrio.

55. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw Rheolydd Data yr wybodaeth fonitro electronig lle mae'n pennu at ba ddibenion y prosesir data ar gyfer monitro unigolion ar orchmynion a thrwyddedau yn electronig. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw rhiant

Adran Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (sy'n cynnwys Carchardai sector cyhoeddus a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol).

56. Gall y Swyddfa Gartref hefyd fod yn Rheolydd Data ar gyfer gorchmynion sifil lle mae'n penderfynu at ba ddiben, a sut, y prosesir y data.

57. Pan fydd data monitro electronig yn cael ei drosglwyddo i sefydliad y tu allan i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder at ddibenion penodol, cyfreithlon, y sefydliad hwnnw fydd Rheolydd Data'r wybodaeth sydd yn ei feddiant at y dibenion hynny.

58. Mae gan bob Rheolydd Data gyfrifoldeb llawn o ran diogelu data i warchod unrhyw wybodaeth bersonol neu ddata y mae ganddynt fynediad ati ac i sicrhau cyfrinachedd. Byddant yn gyfrifol am gynnal rheolaeth a diogelwch yr wybodaeth o fewn systemau eu sefydliad.

59. Proseswyr Data yr wybodaeth fonitro electronig fydd y contractwyr monitro electronig penodedig. Nhw fydd yn gyfrifol am gasglu a dosbarthu gwybodaeth bersonol yr unigolyn ar ran y Rheolydd data yn unol â'r dibenion a nodir ym mharagraff 16 ac 17 uchod.

60. Rhaid i bob parti sicrhau nad yw penderfyniadau sylweddol sy'n effeithio ar unigolion yn seiliedig ar brosesu awtomataidd yn unig. Os yw penderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud drwy brosesu awtomataidd yn unig, yna dylid rhoi gwybod i'r unigolyn ac mae ganddo'r hawl i ofyn i'r penderfyniad gael ei ailystyried neu ei ailwneud fel nad yw'n seiliedig ar brosesu awtomataidd yn unig (gweler adrannau 49 a 50 Deddf Diogelu Data 2018 am ragor o wybodaeth).

## Gweithgarwch cynlluniau peilot

61. Gall y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac eraill dreialu'r defnydd o fonitro electronig i brofi ei effeithiolrwydd ac i lywio'r polisi i'r dyfodol. Bydd y cynlluniau peilot yn cyd-fynd â darpariaethau deddfau diogelu data a bydd mesurau diogelu cytundebol a/neu dechnegol ar waith i sicrhau mai dim ond pan fydd rheswm cyfreithlon dros wneud hynny y bydd data personol yn cael ei weld a'i rannu.

Mae’r cod bar yn mynd yma:

2.93cm (u)
3.74cm (ll)
16.2cm i'r dde o'r dudalen